



Sarah Morgan,
Prif Swyddog Addysg
Cyngor Dinas Casnewydd
Y Ganolfan Ddinesig
Casnewydd,
NP20 4UR

Hysbysir trwy hyn, yn unol ag adran 42 Deddf Safonau a Threfniadaeth Ysgolion (Cymru) 2013 a Chod Trefniadaeth Ysgolion, fod Cyngor Dinas Casnewydd, wedi ymgynghori â'r bobl angenrheidiol, yn cynnig cynyddu capasiti cyffredinol Ysgol Basaleg o 1,747 i 2,050 o fis Medi 2023.

Cynhaliodd y Cyngor gyfnod ymgynghori cyn penderfynu cyhoeddi'r cynnig hwn. Mae adroddiad ar yr ymgynghoriad sy'n cynnwys crynodeb o'r sylwadau wedi'u gwneud gan yr ymgynghoreion, ymatebion y cynigiwr a barn Estyn ar gael ar wefan Cyngor Dinas Casnewydd yn <http://www.newport.gov.uk/cy/Schools-Education/School-reorganisation/School-reorganisation.aspx>.

Mae Ysgol Basaleg yn ysgol gymunedol cyfrwng Saesneg a gynhelir gan Gyngor Dinas Casnewydd ar gyfer disgyblion 11-18 oed, sydd wedi'i lleoli yn Forge Lane, Casnewydd, NP10 8NF. Nifer mesuredig y lleoedd yn yr ysgol yw 1,747 a'r nifer derbyn cyhoeddedig (NDC) ar gyfer blynyddoedd 7-11 yw 270. Ar hyn o bryd, nifer y disgyblion sydd ar gofrestr yr ysgol yw 1,760 (Cyfrifiad Hydref 2020). O ganlyniad, mae Cyngor Dinas Casnewydd yn cynnig cynyddu'r nifer derbyn ar gyfer blynyddoedd 7-11 i 330, a thrwy hynny gynyddu nifer cyffredinol y lleoedd yn yr ysgol i 2,050 yn y pen draw, o fis Medi 2023.

Cyngor Dinas Casnewydd yw'r awdurdod derbyn ar gyfer Ysgol Basaleg, a bydd ceisiadau am dderbyniadau yn parhau i gael eu hasesu yn unol â Pholisi Derbyn i Ysgolion y Cyngor.

Mae gan y Cyngor bolisi Cludiant o'r Cartref i'r Ysgol ac mae'n cynnig cludiant am ddim i ddisgyblion o oedran ysgol statudol sy'n gymwys. Nid fydd y cynnig yn effeithio ar y ddarpariaeth hon. Mae mwy o wybodaeth yn ymwneud â'r polisi hwn ar gael ar wefan y Cyngor.

Cyfnod Gwrthwynebu

O fewn cyfnod o 28 diwrnod wedi dyddiad cyhoeddi'r cynnig hwn, sef hyd at 1 Ebrill 2021, caiff unrhyw un wrthwynebu'r cynnig yn ysgrifenedig neu dros e-bost.

Dylid anfon gwrthwynebiadau drwy e-bost i school.reorg@newport.gov.uk. Dylid anfon gwrthwynebiadau yn ysgrifenedig i Gyngor Dinas Casnewydd, at sylw'r Swyddog Datblygu a Gwybodaeth Addysg, Ystafell 425w, Y Ganolfan Ddinesig, Casnewydd, NP20 4UR.

Bydd y Cyngor yn cyhoeddi crynodeb o unrhyw wrthwynebiadau o'r fath a wneir (ac nad ydynt wedi'u tynnu'n ôl yn ysgrifenedig) yn ystod y cyfnod gwrthwynebu, ynghyd â'i sylwadau ar y gwrthwynebiadau hynny, pan roddir gwybod i randdeiliaid am benderfyniad y cynnig.

Llofnod:

Prif Swyddog Addysg
Ar ran Cyngor Dinas Casnewydd, Y Ganolfan Ddinesig, Casnewydd, NP20 4UR
Dyddiedig 3 Mawrth 2021